



DATBLYGIAD PERSONOL, CYMDEITHASOL

**CYMRYD RHAN MEWN GWEITHGAREDDAU TÎM, A
DYSGU OHONYN NHW >**

Cynllun y sesiwn



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

CIPOLWGW >

Yn y sesiwn yma, bydd y dysgwyr yn cyflawni eu gweithgareddau gwaith tîm, ac yn treulio amser yn pwysu a mesur ac yn adolygu eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eu tîm. Dyma ail sesiwn yr uned 'Sgiliau Gwaith Tîm'. Mae'n bosibl ei rhannu'n ddwy sesiwn neu fwy er mwyn i'ch dysgwyr allu cwblhau'r gweithgareddau tîm. Cafodd y sesiwn yma ei chreu mewn partneriaeth â Meta.



CYFLEOEDD LLYTHRENNEDD,

IAITHA RHIFEDD

- ✓ Ysgrifennu a thrafod myfyrdodau
- ✓ Rhoi adborth i ddysgwr arall



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad Cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm, a dysgu ohonyn nhw
- ✓ Taflen waith Pwysu a mesur
- ✓ Cyfrifiaduron, offer recordio (devisol)
- ✓ Unrhyw ddeunyddiau sydd eu hangen ar gyfer y gweithgareddau tîm



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Sgiliau Gwaith Tîm – Deilliannau Dysgu: 2. Gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm; 3. Gallu dysgu o brofiadau o waith tîm i wella eu perfformiad eu hunain

DEILLIANNAU DYSGU >

- ✓ Cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm
- ✓ Pwysu a mesur y cyfraniadau a wnaed mewn gweithgareddau tîm
- ✓ Deall sut mae cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm yn datblygu sgiliau
- ✓ Nodi elfennau i'w datblygu wrth weithio mewn tîm

GWEITHGAREDDAU >

GWEITHGAREDD	AMSER	TUDALEN
Cyflwyniad	5-10 munud	<u>03</u>
Gweithgaredd Gwaith tîm	Yn dibynnu	<u>04</u>
Trafodaeth	10 munud	<u>05</u>
Pwysu a Mesur	Yn dibynnu	<u>06</u>
Rhannu adborth	15 munud	<u>07</u>
Dirwyn i ben	5 munud	<u>08</u>



CYFLWYNIAD



AMSER

5-10 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad Cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm, a dysgu ohonyn nhw

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n awr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm. Mewn grwpiau bach, bydd y dysgwyr yn trafod ac yna'n rhannu'r geiriau sy'n dod i'w meddwl wrth ystyried gwaith tîm. Efallai y byddai'n ddefnyddiol iddyn nhw feddwl am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn y sesiwn flaenorol.
2. Cofnodwch syniadau'r dysgwyr ar fwrdd gwyn/siart troi, gan ganolbwyntio ar unrhyw eiriau allweddol sy'n cael eu rhannu. Eglurwch i'r dysgwyr fod llawer o'r geiriau'n gysylltiedig â 4 sylfaen gwaith tîm:
 - Cyfathrebu
 - Cyd-drefnu
 - Cydweithio
 - Cyd-ddibyniaeth
3. Trafodwch y sleid 4 sylfaen yng nghyflwyniad y sesiwn. Pwysleiswch wrth y dysgwyr fod gwaith tîm llwyddiannus yn dibynnu ar dimau'n ymddwyn ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r sylfeini hyn.

Gwnewch yn siŵr bod y dysgwyr yn deall beth mae pob sylfaen yn ei olygu. Gallech roi enghreifftiau ac ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw.

AWGRYM I'R HWYLUSYDD

Os na allwch chi rannu'r cyflwyniad yn ystod y sesiwn, argraffwch gopiâu i'w defnyddio fel taflenni i'r dysgwyr.



Prince's Trust

**START
SOMETHING**

GWEITHGAREDD GWAITH TÎM >



AMSER

Yn dibynnu ar y gweithgaredd a ddewisir



DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad Cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm, a dysgu ohonyn nhw

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Mae angen i'r dysgwyr fynd ati'n awr i gymryd rhan yn y gweithgareddau tîm sydd wedi cael eu dewis. Gallant fod yn unrhyw weithgaredd sy'n gofyn i ddysgwyr weithio fel tîm. Gallwch chi a/neu'r dysgwyr ddewis y gweithgareddau a'r timau.

AWGRYM I'R HWYLUSYDD

I fodloni gofynion y cymhwyster, mae angen i'r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau tîm sy'n para tua 25 awr (yr oriau dysgu dan arweiniad a nodwyd ar gyfer y cymhwyster).

Efallai y byddwch chi am ddefnyddio'r unedau eraill yn y cymhwyster. Gallai'r dysgwyr wneud gweithgareddau gwaith tîm mewn unedau eraill lle maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd dros gyfnod hir i gyflawni nod/canlyniad penodol.

Mae'r unedau perthnasol yn cynnwys:

- Cyflawni Prosiect Menter
- Effaith Gymunedol
- Cynaliadwyedd

2. Cyn i'r dysgwyr ddechrau ar eu gweithgareddau tîm, efallai y byddwch chi am rannu'r camau posibl mewn gweithgaredd tîm, sydd wedi'u rhestru isod ac yng nghyflwyniad y sesiwn.
 1. Ffurio – Rydych chi'n ymuno â thîm. Meddyliwch am bwrpas/nod y tîm, a gwnewch yn siŵr eich bod yn cyflwyno'ch hun ac yn dod i adnabod holl aelodau eraill y tîm.
 2. Hel Syniadau – Darganfod beth mae angen i'r tîm ei wneud i gyrraedd ei nod. Meddyliwch a ddylai fod gan aelodau'r tîm wahanol rolau, a beth ddylai'r rhain fod. (Awgrym: Ar gyfer dysgwyr Lefel 2/Lefel 5 SCQF, gallech awgrymu y dylid cael arweinydd tîm).
 3. Trefnu – Cynllunio pa gamau y bydd y tîm yn eu cymryd, a datrys unrhyw anghytuno ynghylch y gweithgaredd tîm.
 4. Perfformio – Cyflawni'r gweithgaredd tîm gystal ag y gallwch chi.
 5. Pwysu a Mesur – Rhoi adborth i aelod o'r tîm a derbyn adborth gan yr aelod hwnnw, a phwysu a mesur eich perfformiad eich hun yn y gweithgaredd tîm.



TRAFODAETH >

Dylech wneud y gweithgaredd yma ar ôl i'r dysgwyr gymryd rhan yn eu gweithgareddau tîm.



AMSER

10 munud




DEUNYDDIAU

- ✓ Cyflwyniad Cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm, a dysgu ohonyn nhw

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Ar ôl y gweithgaredd tîm, rhwch amser i'r dysgwyr bwysu a mesur y cwestiynau isod. Gallech ddangos y sleid ar gyflwyniad y sesiwn iddyn nhw, neu gallech argraffu'r sleid neu ysgrifennu'r cwestiynau ar fwrdd gwyn/siart troi. Efallai y bydd y dysgwyr am bwysu a mesur yn dawel yn eu meddwl, neu gallent wneud nodiadau.
 - Sut oeddech chi wedi cyfrannu at y gweithgaredd tîm, a sut oedd hyn wedi helpu?
 - Oedd y tîm wedi cydweithio'n dda? Ym mha ffyrdd?
 - Oeddech chi wedi datblygu unrhyw sgiliau drwy gymryd rhan yn y gweithgaredd tîm? Sut?
2. Ar ôl iddyn nhw dreulio dau neu dri munud yn pwysu a mesur, anogwch y dysgwyr i rannu eu barn, naill ai gydag aelodau eu tîm neu'r grŵp ehangach. Ceisiwch annog trafodaeth gadarnhaol.
3. A oes unrhyw ddysgwyr yn meddwl eu bod wedi datblygu sgiliau drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau tîm? Ysgrifennwch ar fwrdd gwyn/siart troi unrhyw sgiliau maen nhw'n eu henwi.
4. Rhannwch y sleid o'r cyflwyniad sy'n rhestru rhai o'r sgiliau cyffredin sy'n cael eu datblygu wrth wneud gwaith tîm. Trafodwch a fyddai unrhyw un eisiau datblygu unrhyw rai o'r sgiliau hyn ymhellach, neu ddechrau datblygu unrhyw rai nad oedden nhw wedi'u henwi yn y cam diwethaf.



Prince's Trust

START
SOMETHING

PWYSO A MESUR



AMSER

Yn dibynnu ar y gweithgaredd a ddewisir



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Pwyso a mesur (dewisol)
- ✓ Cyfrifiaduron (dewisol)
- ✓ Offer recordio (dewisol)



CYFLEOEDD I GAEL CYMHWYSTERAU

- ✓ Rhoi enghreifftiau o weithgareddau rydych chi wedi cymryd rhan ynddyn nhw
- ✓ Eich cyfraniadau chi yn ystod y gweithgareddau gwaith tîm
- ✓ Y sgiliau a ddatblygwyd wrth weithio mewn tîm
- ✓ Y sgiliau gwaith tîm rydych chi eisiau eu datblygu
- ✓ Sut oedd y tîm wedi cydweithio'n dda
- ✓ Egluro pa sgiliau fyddai gennych chi i'w cynnig ar gyfer rôl arweinydd tîm

CAMAU'R GWEITHGAREDD

1. Mae angen i ddysgwyr sy'n gweithio tuag at y cymhwyster gofnodi eu myfyrdodau am y gweithgaredd tîm rydych newydd ei drafod. Gallent wneud hyn drwy lenwi'r daflen waith 'Pwyso a Mesur' a defnyddio'r awgrymiadau ar y daflen waith i'w helpu, neu i fynd ati mewn ffordd fwy creadigol, edrychwch ar yr opsiwn arall isod.

Cofiwch nad ydy'r blychau 'dewisol' ar y daflen waith yn ddewisol ar gyfer dysgwyr Lefel 2/Lefel 5 SCQF. Gwnewch yn siŵr bod eich dysgwyr yn llenwi'r blychau er mwyn cyrraedd y lefel maen nhw'n anelu ati.

GWEITHGAREDD YMESTYNNOL DEWISOL

Ar gyfer dysgwyr Lefel 2/Lefel 5 SCQF, efallai y byddwch am gael trafodaeth arall fel grŵp ynghylch arwain tîm, gan ddefnyddio'r pwyntiau isod. Bydd hyn yn eu helpu i fodloni'r maen prawf Lefel 2/Lefel 5 SCQF am arweinydd tîm.

- Beth mae'n ei olygu/beth ddylai arweinydd tîm ei wneud
- Beth wnaeth yr arweinydd tîm yn ystod y gweithgareddau tîm
- Pa sgiliau sydd eu hangen ar arweinydd tîm i wneud ei

GWEITHGAREDD ARALL

Yn hytrach na chofnodi eu myfyrdodau ar daflen waith, gallai'r dysgwyr eu cyflwyno mewn ffordd wahanol. Dyma rai o'r opsiynau:

- Cyflwyniad gyda sleidiau a/neu sgrïpt (Gellid defnyddio'r cyflwyniad yma ar gyfer uned y cymhwyster Sgiliau Cyflwyno)
- Cael sgwrs holi ac ateb gyda dysgwr arall neu aelod o staff am y profiad o weithio mewn tîm

I ddysgwyr sy'n gweithio tuag at y cymhwyster, mae'n bwysig creu a chadw tystiolaeth o'r gweithgareddau uchod. Er enghraifft, copiau papur o sgrïpt neu sleidiau'r cyflwyniad, neu ffeil sain neu fideo o'r cyflwyniad neu'r sgwrs holi ac ateb.

AWGRYM: Byddai'r daflen waith Pwyso a Mesur yn dal yn gallu cael ei defnyddio fel dogfen gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n gwneud gweithgaredd arall.



RHANNU ADBORTH >



AMSER

15 munud



DEUNYDDIAU

- ✓ Taflen waith Pwysu a mesur
- ✓ Cyflwyniad Cymryd rhan mewn gweithgareddau tîm, a dysgu ohonyn nhw



CYFLEOEDD I GAEL CYMWYSTERAU

- ✓ Cael adborth ar eich sgiliau gwaith tîm

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Eglurwch i'r dysgwyr ei bod yn bwysig iddyn nhw bwysu a mesur eu perfformiad eu hunain yn ogystal â pherfformiad gwahanol aelodau o'r tîm, er mwyn ystyried sut gellid gwella eu gwaith tîm.
2. Rhowch y dysgwyr mewn parau i roi a derbyn adborth. Gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu paru â rhywun a oedd yn aelod o'u tîm ar gyfer y gweithgaredd.
3. Gan ddefnyddio'r cwestiynau cynorthwyl yng nghyflwyniad y sesiwn, bydd pob dysgwr yn treulio ychydig funudau'n ystyried a/neu'n nodi unrhyw deimladau sydd ganddyn nhw am sgiliau gwaith tîm eu partner. Gwnewch yn siŵr eu bod yn cynnwys pwytiau cadarnhaol ac un elfen i'w gwella.
4. Pan fydd y dysgwyr yn barod, gofynnwch i'r parau gymryd eu tro i roi adborth i'w gilydd. Dylech eu hannog i gael sgwrs ddwy ffordd, ac i ofyn unrhyw gwestiynau sydd ganddyn nhw am sylwadau ei gilydd.
5. Ar ôl iddyn nhw rannu eu hadborth ar lafar, gofynnwch i'r parau gyfnewid taflenni gwaith Pwysu a Mesur, a nodi eu hadborth ar gyfer eu partner yn yr adran berthnasol ar daflen waith eu partner.



Prince's Trust

START
SOMETHING

DIRWYN I BEN >




AMSER

5 munud

CAMAU'R GWEITHGAREDD >

1. Dylech ganmol y dysgwyr am eu gwaith caled yn y gweithgareddau tîm, a'u syniadau a'u sylwadau ystyriol wrth bwysu a mesur.
2. Gofynnwch i'r dysgwyr beth oedden nhw wedi'i fwynhau fwyaf am weithio mewn tîm a bod yn aelod o dîm. Ydyn nhw wedi dysgu unrhyw beth y byddan nhw'n ei gofio at y dyfodol?
3. Dylech annog y dysgwyr drwy bwysleisio y bydd y sgiliau a'r profiad o weithio mewn tîm o fudd iddyn nhw yn y dyfodol. Efallai y byddwch am roi enghreifftiau penodol iddyn nhw, fel prosiectau y byddwch chi'n eu gwneud yn y dyfodol neu sefyllfaoedd yn eu gweithleoedd yn y dyfodol.



Prince's Trust

START
SOMETHING